# Adroddiad Cwrs.
# Cyflwyniad i Redyn a Rhedyn Perthynol; 20fed Awst 2016, Treborth, Bangor



David Hill o Gymdeithas Rhedynegol Prydain oedd arweinydd y cwrs adnabod undydd rhyfeddol yma. Daeth pedwar ar ddeg o bobl ar y cwrs, gan gynnwys tri ymwelydd o Tsieina.

Gan ddechrau'r diwrnod gyda sgwrs gyflwyniadol, defnyddiodd David esiamplau yr oedd wedi'u casglu'n gynharach i ddangos y gwahaniaethau allweddol ymhlith y rhywogaethau amrywiol. Cyflwynwyd cylch atgynhyrchu cymhleth rhedyn drwy gyfrwng fideo, gan helpu i brocio'r cof o ddyddiau ysgol!

Roedd yn tywallt y glaw yn y bore ond roedd y tywydd fymryn yn well yn y pnawn ac felly fe aethom allan i'r gerddi.

Roedd sawl rhywogaeth o redyn ar adeiladau Treborth eu hunain, gan gynnwys Rhedynen y Derw, Marchredynen Fenyw, Duegredynen a Rhuw'r Muriau. Hefyd cawsom gyfle i weld rhywogaethau prin yng Ngogledd Cymru, fel Rhedynen Gelyn, Marchredynen Hirgul y Mynydd a'r Rhedyn Brenhinol ymhlith casgliadau'r ardd.

Aethom i lawr i goetir yr ardd a dod o hyd i ragor o Fachredyn Benyw, Rhedyn Ungoes a rhywfaint o Wrychredyn anaeddfed.

Aethom yn ôl i'r labordy am ddiod cynnes a bisgedi, ac roedd eu wir angen erbyn hynny. Daeth David â'r diwrnod hynod lwyddiannus yma i ben drwy ddweud wrthym am adnoddau adnabod defnyddiol a digwyddiadau maes lleol a fyddai'n gyfle i bobl ddatblygu eu diddordeb mewn rhedyn ymhellach.





cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service

WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP